## ATODLEN 1

rheoliadau 4 a 5

Darparu gwybodaeth am unigolion i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol perthnasol

**1.** Yr wybodaeth ganlynol am y plentyn—

(a) Rhif unigryw cyfredol y disgybl (os yw'n berthnasol);

(b) cyfenw;

(c) enw cyntaf y plentyn, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(ch) enw canol y plentyn, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(d) rhyw;

(dd) dyddiad geni;

(e) grŵp ethnig a ffynhonnell yr wybodaeth hon;

(f) hunaniaeth genedlaethol a ffynhonnell yr wybodaeth hon; ac

(ff) grŵp blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol y câi'r plentyn ei addysgu ynddo petai'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir.

**2.** Cod post y cartref lle mae'r plentyn fel arfer yn preswylio.

**3.** A yw'r plentyn, yn unol ag adran 512(3) a 512ZB(**1**) o Ddeddf 1996, wedi gwneud cais am gael prydau am ddim yn yr ysgol ac a gafwyd ei fod yn gymwys i'w cael.

**4.** A oes gan y plentyn anghenion addysgol arbennig ac, os felly, cadarnhad o—

(a) prif angen y plentyn ac unrhyw angen eilaidd a nodwyd; a

(b) pa lefel a pha fath o ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig sy'n rhan o'r ymagwedd raddedig yn unol â "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru", a ddyroddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002, sy'n cael ei gwneud i'r plentyn.

**5.** A yw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol perthnasol.

**6.** Y math o le a fynychir i gael darpariaeth a ariennir, hynny yw, a yw'r ddarpariaeth honno—

(a) mewn uned cyfeirio disgyblion;

(b) mewn ysgol annibynnol;

(c) mewn ysbyty (ac eithrio ysgol a sefydlwyd mewn ysbyty); neu

(ch) yn cael ei darparu mewn man nad yw'n un o'r rhai y cyfeiriwyd ato yn is-baragraffau (a) i (c), ac os felly, disgrifiad cryno o'r math o ddarpariaeth.

**7.** Y math o le a fynychir gan y plentyn i gael darpariaeth a ariennir yn unol â pharagraff 6, a nifer yr oriau o ddarpariaeth a ariennir a gafodd y plentyn yn yr wythnos cyn bod cais yn dod gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 4.

---

(**1**) Wedi ei rhoi, ynghyd ag adrannau 512 a 512ZA yn lle adran 512, fel y cafodd honno ei deddfu'n wreiddiol gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Mewnosodwyd paragraffau (a)(iia) a (b)(iia) o is-adran (4) gan baragraff 16(1) a (3) o Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio Lles 2007 (p.5).